## Pedwar Tymor Cynan

# Cynan a'r Ddeilen Fach




Awdur: Julia Rawlinson
Darlunydd: Tiphanie Beeke
Oed: 3-5
Fformat: Clawr meddal
Iaith: Cymraeg
Maint: 200 x 250mm
Cyhoeddiad: Medi 2021
Pris: £7.99

## Clawr

**Sgwrs a chlonc**

Cyflwyno'r awdur Julia Rawlinson –ydych chi'n cofio / gwybod pwy sy'n ysgrifennu Cynan Cadno?

Cyflwyno'r darlunydd – Tiphanie Beeke – hi yw'r darlunydd– darluniau yw gair arall am luniau.

Pa liwiau welwch chi ar y clawr?

Beth mae Cynan yn ei wneud?

Sut deimlad yw bod ar siglen?

**Gweithgareddau**

Ewch am dro Hydrefol i chwilio am ddail– chwiliwch am ddail o wahanol faint, lliw, siap.

Ymchwiliwch i waith Andy Goldsworthy – celf amgylcheddol.




## Tudalen ddwbl fewnol

**Sgwrs a chlonc**

Beth welwch chi yma?

Sawl coeden welwch chi?



## Tudalen 6 a 7

**Sgwrs a chlonc**

Edrychwch ar liwiau'r coed – aur llychlyd – a fedrwch feddwl am liwiau eraill i'w disgrifio?

Beth sy'n digwydd i hoff goeden Cynan?

Sut sŵn yw sibrwd cewnsiog?


Sut oedd Cynan yn teimlo?

Ble mae Cynan yn byw? Mewn ffau.

**Gweithgareddau**

Casglwch ddail a brigau i'w gosod mewn *tuff tray* i greu byd bach y cysgaduriaid.

*Cynan a'r Ddeilen Fach* Nodiadau Addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 8 a 9

**Sgwrs a chlonc**

Gyda phwy mae Cynan yn siarad?

Beth maent yn eistedd o gwmpas?


Ydych chi wedi gweld coelcerth?

Ymhle?

Aeth Cynan i roi cwtsh i'r goeden – pam sgwn i?

**Gweithgareddau**

Crëwch rhai tasgau ysgol goedwig – cyd weithio tîm ac yn y blaen.



## Tudalen 10 a 11

**Sgwrs a chlonc**

Beth sy'n digwydd i'r dail ar y goeden?

Fedrwch chi gyfri'r dail?

**Gweithgareddau**

Didoli a dosbarthu gwahanol ddail – trefnu yn ôl maint o'r lleiaf i'r mwyaf.



## Tudalen 12 a 13

**Sgwrs a chlonc**

Fedrwch chi weld ar beth mae Cynan yn sefyll?

A yw yn ddiogel?

Beth mae Cynan yn ceisio ei wneud?

**Gweithgareddau**

Gwrandewch ar yr Hydref o'r *Four Seasons* gan Vivaldi – gall y plant beintio mewn ymateb.



## Tudalen 14 a 15

**Sgwrs a chlonc**

Edrychwch sut mae'r dail yn symud – troi a dawnsio.

Beth sy'n gwneud iddynt ddawnsio?

**Gweithgareddau**

Gweithgaredd symud – cymalau dawns – gorwedd, symud, codi, chwyrlio, arafu, cyflymu, arafu, gorwedd.



## Tudalen 16 a 17

**Sgwrs a chlonc**

Pam oedd yr adar eisiau'r dail?


Pwy aeth a'r dail i gadw'n gynnes?

A oedd Cynan yn hapus? Beth oedd Cynan yn meddwl oedd yn digwydd?

**Gweithgareddau**

Crëwch boster ar goll neu yn eisiau.

*Cynan a'r Ddeilen Fach* Nodiadau Addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.



## Tudalen 18 a 19

**Sgwrs a chlonc**

Pwy ddoth i helpu roi'r dail nôl ar y goeden?

Ydych chi wedi helpu rhywun?

**Gweithgareddau**

Gem teimladau Cynan– lluniau Cynan o wahanol storiau neu rannau gwahanol y stori, y plant i ddweud sut mae'n teimlo a phryd roedd yn teimlo yn.. hapus..drist?



## Tudalen 20 a 21

**Sgwrs a chlonc**

Beth ddigwyddodd tra roedd Cynan yn cysgu?


Fedrwch chi weld y dail wedi syrthio?

Sawl un sydd yna?

Driphlith – draphlith, rhowlio – powlio – geiriau odl – a fedrwch feddwl am eiriau sy'n odli gyda – ci, tŷ, mawr.

**Gweithgareddau**

Creu darluniau naturiol tu allan gyda dail, brigau a cherrig.



## Tudalen 22 a 23

**Sgwrs a chlonc**

Pam roedd Cynan yn dal y ddeilen?

Sut gyrhaeddodd Cynan canghenau ucha'r goeden– wrth ddringo.

Pa eiriau symud arall gallwn feddwl am? Rhedeg, cropian, hercian, ymlusgo, ac yn y blaen.

**Gweithgareddau**

Sesiwn symud – Saint-Saëns *Carnival of the Animals*. Anogwch y plant i symud fel yr anifeiliaid. Gallant ddyfalu pa anifail sy'n cyfateb i bob rhan.



## Tudalen 24 a 25

**Sgwrs a chlonc**

Symudodd y ddeilen fach fel?

Daliodd Cynan y ddeilen yn ei bawen – oes pawenau gyda ni.


Pa anifeiliaid eraill sydd a phawenau?

Pwy sydd ag adenydd? Crafangau? Cenau?

**Gweithgareddau**

Crëwch faneri i'w gosod y tu allan.

Arbrofwch gyda'r gwynt Crëwch melinau gwynt a barcutiaid.



## Tudalen 26 a 27

**Sgwrs a chlonc**

Beth wnaeth Cynan gyda'r ddeilen?

Pam ydych yn meddwl iddo wneud hynny?

Ydych chi wedi edrych ar ôl pethau'n ofalus?

Beth?

Ydych chi'n gweld tu fewn i'r ffau?

**Gweithgareddau**

Crëwch tai a chartrefi ar gyfer gwahaol anifeiliaid a chreaduriaid.

Dysgu enwau cartrefi anifeiliaid.



## Tudalen 28 a 29

**Sgwrs a chlonc**

Beth ddigwyddodd i'r goeden?

Sut digwyddodd hynny?

Beth sy'n creu barrug?

**Gweithgareddau**

Gwyliwch ffilm cyflym o farrug a rhew yn ffurfio–sut gallem wneud i iâ doddi/ ddadmer yn gyflymach?




## Clawr cefn

**Sgwrs a chlonc**

Beth welwch chi ar y clawr cefn?

Ydych chi'n cofio beth ydym yn galw'r stori fer ar y cefn?

Beth yw'r llinellau a'r rhifau?

Beth mae Cynan yn ei wneud?

CYNAN:

**Cynan a'r Ddeilen Fach**
ISBN 9781802580143

**Cynan a'r Bluen Eira**
ISBN 9781802580150

**Cynan a'r Petalau**
ISBN 9781802580129

**Cynan a'r Sioe Haf**
ISBN 9781802580136

Gall y nodiadau hyn gynnwys dolenni i wefannau trydydd parti. Nid yw Graffeg yn cymeradwyo gwefan(nau) or fath na'u cynnwys ac nid yw'n gyfrifol am gynnwys or fath ac nid yw'n cyflwyno unrhyw sylwadau na gwarantau ynghylch cynnwys, cywirdeb neu ymarferoldeb gwefan(nau) o'r fath.

*Cynan a'r Ddeilen Fach* Nodiadau Addysgu © 2021 Graffeg. Cedwir pob hawl.. Ysgrifennwyd gan Carys Jennings. www.graffeg.com/pages/teachers-resources.